**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

21 Hydref 2024

Annwyl Huw,

**Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau i Atodiad A i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 16 Hydref. Gwnaethom gytuno i ymateb yn unol â'r terfyn amser y gofynnwyd amdano, sef 29 Tachwedd.

I gynorthwyo'r gwaith o baratoi ein hymateb, byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu eich sylwadau cyffredinol ar y cynigion, yn ogystal â mynd i'r afael â'r pwyntiau penodol a ganlyn:

- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r ddogfen ymgynghori ddrafft;
- A fyddai modd i chi rannu eich barn ar y cam o ddileu rôl Gweinidogion Cymru fel awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi nifer o Gyd-gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, a'r cyfiawnhad dros wneud hynny;
- A fyddai modd i chi nodi a oes unrhyw asesiad effaith wedi'i gynnal ar y cam o ddileu rôl Gweinidogion Cymru fel awdurdod sy'n gyfrifol am y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd hyn. Er enghraifft, a allai cam o'r fath effeithio ar uchelgais pysgotwyr Cymru o ran targedu'r stociau hynny yn y dyfodol; ac
- A fyddai modd i chi nodi a oes mecanwaith ar waith, neu yn yr arfaeth, a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i adennill eu cyfrifoldeb dros y Cyd-gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

hynny, a beth fyddai hyn yn ei olygu. Er enghraifft, a fyddai modd sicrhau bod trafodaethau ynghylch yr awdurdodau cyfrifol yn rhan safonol o'r adolygiad chwe blynedd a gynhelir ar bob Cynllun Rheoli Pysgodfeydd.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 8 Tachwedd 2024.

Yn gywir,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg